------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Y Pwyllgor Menter a Busnes

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 5 Ebrill 2016

Amser: 09.30


I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:

**Martha Howells**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddBusnes@Cynulliad.Cymru


## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

**Rhag-gyfarfod preifat** (09.30-10.00)

## 2 Cynrychiolwyr diwydiant - Cymorth ar gyfer y Diwydiant Dur yng Nghymru

(10.00-11.00) (Tudalennau 1 - 37)

Tim Morris, Pennaeth Materion Allanol, Tata Steel Europe

Chris Hagg, Pennaeth Materion Allanol, Celsa Steel

Virinder Garg, Prif Swyddog Gweithredol, Liberty Steel Newport Ltd

Haydn Swidenbank, Cyfarwyddwr Gweithrediadau, Liberty Steel Newport Ltd

Dogfennau atodol:

Y Briff Ymchwil

Briff Cyfreithiol (Saesneg yn unig)

## 3 Cynrychiolwyr undebau - Cymorth ar gyfer y Diwydiant Dur yng Nghymru

(11.00-11.45)

Steve McCool, Swyddog Cenedlaethol ar gyfer Dur, Cymuned

Rob Edwards, Prif Drefnydd, Cymuned

Tony Brady, Swyddog Cydlynu Rhanbarthol, Unite

**Egwyl** (11.45-12.00)

## 4 Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth - Cymorth ar gyfer y Diwydiant Dur yng Nghymru

(12.00-13.00) (Tudalennau 38 - 40)

Edwina Hart AC, Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth

Steve Phillips, Prif Weithredwr Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

Dogfennau atodol:

EBC(4)-10-16 (p.1a) Tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru

## 5 Papurau i'w nodi

### 5.1 Gorsaf Bŵer TATA Steel Port Talbot

(Tudalennau 41 - 45)

Dogfennau atodol:

EBC(4)-10-16 (p.1) Llythyr oddi wrth William Powell AC, Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau ynghylch deiseb a gyflwynwyd am Orsaf Bŵer TATA Steel Port Talbot (Saesneg yn unig)

**Ôl-drafodaeth breifat** (13.00-13.15)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Edwina Hart MBE CStJ AC / AM**
**Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth**
**Minister for Economy, Science and Transport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

William Graham AC
Y Cadeirydd
Y Pwyllgor Menter a Busnes

4 Ebrill 2016

Annwyl William

Diolch am eich llythyr dyddiedig 4 Mawrth ynghylch dyfodol y diwydiant dur yng Nghymru.

Mae cryn lawer o waith wrthi'n cael ei wneud yn y maes hwn drwy fy Nhasglu Tata Steel, yn enwedig o ystyried cyhoeddiad diweddaraf Tata yr wythnos ddiwethaf. Rhoddodd y Prif Weinidog y diweddaraf i Aelodau heddiw mewn datganiad llafar.

Rydym wedi bod yn gweithio'n agos â'r diwydiant dur am flynyddoedd lawer ac rydym yn ymwybodol iawn o'r heriau anodd sy'n ei wynebu. Rydym wedi bod yn codi'r materion gyda Llywodraeth y DU yn rheolaidd ac yn parhau i wneud hynny - cododd y Prif Weinidog bryderon am effaith prisiau ynni yn 2011.

Rwy'n gwerthfawrogi y bydd rhagor o drafodaethau ar y materion ynghylch y diwydiant dur yng nghyfarfod y Pwyllgor yfory. Fodd bynnag, rwyf wedi atodi gwybodaeth sy'n ymwneud â'r pwyntiau a godwyd gennych.

Edwina Hart

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0300 0603300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0300 0604400
Gohebiaeth.edwina.Hart@Cymru.gsi.gov.uk



*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

## DYFODOL Y DIWYDIANT DUR YNG NGHYMRU

### 1. Ardrethi Busnes

Yn Sesiwn y Pwyllgor ar 3 Mawrth, cyfeiriais at y gwaith manwl sydd wedi'i gynnal ar archwilio'r opsiynau ar gyfer newid ardrethi busnes.

Rydym wedi bod yn trafod yn fanwl ag Asiantaeth y Swyddfa Brisio am oblygiadau gwneud newidiadau pellach i gefnogi'r sector dur yng Nghymru.

Er enghraifft, fel rhan o'n trafodaethau, mae Asiantaeth y Swyddfa Brisio eisoes wedi cadarnhau y bydd yn ystyried Cyflwr y Diwydiant a'i effaith ar sut mae safleoedd unigol yn gweithredu yn yr ailbrisiad yn 2017. Er na fydd effaith lawn hyn yn glir tan i'r broses ailbrisio gael ei chwblhau, mae'n golygu o 2017 y bydd gwerthoedd ardrethol yn adlewyrchu amgylchiadau presennol safleoedd dur yng Nghymru yn well.

Ystyrir bod rhyddhad ardrethi busnes sydd wedi'i dargedu at sectorau penodol yn gymorth gwladwriaethol dewisol ac mae'n rhaid ei ddyfarnu'n unol â gofynion de minimis. Dim ond hyd at €200,000 sy'n gallu cael ei roi dros gyfnod o dair blynedd dreigl.

Yn ogystal, mae asesiadau gwaith dur yn cael eu prisio gan ddefnyddio sylfaen y contractwyr a dylai felly elwa ar ostyngiad i'r gyfradd ddatgyfalafu rydym eisoes wedi'i phennu ar 3.8% ar gyfer yr ailbrisiad yn 2017 o'i chymharu â 4.5% yn 2010.

Rydym wedi bod yn ystyried yr opsiynau o ran offer a pheiriannau mewn asesiadau graddio. Fodd bynnag, yn dilyn trafodaeth ag Asiantaeth y Swyddfa Brisio, ni fu'n bosibl eto i nodi ffordd o wneud hyn a fyddai'n osgoi cymorth gwladwriaethol ac apelau, o ystyried prinder y data sydd ar gael a'r cymhlethdodau technegol.

Cyhoeddais yn ddiweddar y bwriad i sefydlu Ardal Fenter newydd yng Nglannau Port Talbot. Amcan y cynnig yw creu cyfleoedd gwaith newydd a chryfhau sylfaen economi'r ardal. Bydd y Cynllun Ardrethi Busnes, ar gyfer busnesau bach a chanolig, yn ffurfio rhan bwysig o'r cynnig hwn.

O ran mesurau eraill sy'n anelu at leihau'r gost i safleoedd gweithgynhyrchu yng Nghymru, mae fy Swyddogion yn parhau i archwilio'r opsiynau'n ofalus o ystyried y cymhlethdodau technegol rwyf eisoes wedi eu hesbonio.

Mae adolygiad strwythurol Llywodraeth y DU o ardrethi busnes, o'r diwedd, yn dirwyn i ben. Erbyn hyn mae gennym ddarlun llawer cliriach o'r hyn mae Llywodraeth y DU yn bwriadu ei wneud a bydd fy swyddogion yn archwilio'r goblygiadau i Gymru'n drylwyr cyn rhoi unrhyw gyngor ar unrhyw newidiadau a allai gael eu gwneud.

### 2. ProAct

Cyflwynwyd ProAct i ymateb i'r dirywiad economaidd yn 2008 a chafwyd ymateb penodol ganddo i'r sefyllfa honno. Yn Llywodraeth Cymru, mae gennym enw da am ymateb yn llwyddiannus i sefyllfaoedd sy'n gofyn am ein cymorth. Er hynny, nid ydym yn ystyried ailgyflwyno Rhaglen ProAct ar hyn o bryd.

Rydym yn gweithio gyda'r sector dur i sicrhau y gallwn fodloni gofynion y cwmnïau y mae'r pwysau diweddar yn y diwydiant yn effeithio arnynt i sicrhau eu bod mewn sefyllfa i allu diwallu anghenion y sector yn y dyfodol. Byddwn yn rhoi trefniadau cymorth tebyg

ar waith drwy fecanweithiau sy'n bodoli eisoes a fydd yn datblygu sgiliau'r rhai sydd angen hynny. Gall gynnwys cyfraniad at gyflogau tra bod gweithwyr yn cael hyfforddiant - gallwn roi cymorth ariannol sylweddol tuag at gostau hyfforddi tebygol.

Rydym wrthi'n helpu Tata drwy roi cyllid ar gyfer ailhyfforddi ac uwchsgilio staff sy'n aros yn Tata Steel er mwyn datblygu sgiliau allweddol ymhellach yn y cwmni er mwyn helpu cynaliadwyedd y busnes yn y tymor hwy.

**3. Dur o Dsieina**

Rwyf wedi gofyn i'm Swyddogion drefnu gwaith ymchwil ar ansawdd y dur. Nid yw hyn wedi'i gomisiynu eto ond unwaith y caiff ei gwblhau, bydd y canfyddiadau'n cael eu rhannu.

**4. Cydweithio**

Mae trafodaethau'n parhau â Tata a Llywodraeth y DU.

**5. Cronfa Addasu Globaleiddio Ewrop**

Mae Cronfa Addasu Globaleiddio Ewrop (EGF) yn cyfrannu'n ariannol at fesurau'r farchnad lafur, gyda'r nod o ailintegreiddio'r rhai sydd wedi colli eu swyddi neu sy'n wynebu'r risg o golli eu swyddi yn y farchnad lafur. Mae aelod-wladwriaethau'n gyfrifol yn y lle cyntaf am fynd i'r afael â diswyddiadau oherwydd addasiadau i'r diwydiant. Mae'r gronfa, felly, wedi'i dylunio i ychwanegu at gymorth cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Ym marn Llywodraeth y DU mae'r DU eisoes yn cynnig ystod eang o gymorth personol i weithwyr sy'n colli eu swyddi, na allai gael ei dyblygu na'i amnewid gan yr EGF. Dim ond os bydd angen mwy o gymorth yr ystyrir ffynonellau eraill o gymorth.

Byddwn yn parhau i nodi potensial yr EGF i roi cymorth.

**6. Y Camau Nesaf**

Mater i Tata yw'r amserlenni o ran colli'r swyddi ym Mhort Talbot.  Fel y nodais yn fy nhystiolaeth, ni fyddai'n briodol imi wneud sylwadau ar y broses dileu swyddi.

Ymatebais yn gyflym i gyhoeddiad Tata ym mis Ionawr drwy sefydlu Tasglu Tata Steel. Drwy waith y tasglu hwn a'r ffrydiau gwaith, mae Llywodraeth Cymru'n gweithio'n agos â phob parti i helpu'r unigolion a'r busnesau hynny mae'r cyhoeddiad wedi effeithio arnynt.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Deisebau

National Assembly for Wales
Petitions Committee



William Graham AM
Chair, Enterprise and Business Committee
National Assembly for Wales
Tŷ Hywel
Cardiff Bay CF99 1NA

31 March 2016

Dear William

**PETITION ABOUT TATA STEEL PORT TALBOT POWER PLANT**

The following petition was submitted to the Assembly using our online petitions system on 10 February. It closed for signatures earlier today having been signed by 531 people.

> *We the undersigned call upon the Welsh Government to use all levers at its disposal, including financial levers, to support the completion of a new power plant planned for Port Talbot steels works. The construction of this plant will create jobs and when it is operational it will reduce emissions, reduce Tata's running costs and help to safeguard vital jobs in the area.*

In line with our usual practice I wrote on 23 February to the Minister for Economy, Science and Transport, Edwina Hart AM to ask for her views on the petition to help inform the consideration of the petition in due course by the incoming Petitions Committee. The Minister replied on 26 February and I enclose a copy of my letter and her reply.

The Petitions Committee will not meet again in this Assembly and it will be for the incoming Committee to decide detailed action on the petition. However, the petition clearly raises issues relevant to your Committee's meeting next week, which will take evidence on the current situation in the Welsh steel industry.

I would be grateful, therefore, if the Enterprise and Business Committee could note the petition and its content when it meets next week. The Committee may

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddDeisebau@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddDeisebau
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddPetitions@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddPetitions
0300 200 6565

also find the issues it raises and the Minister's response of assistance in your deliberations.

Can I also draw to your attention that we have arranged with the lead petitioner, Mr Peter Bamsey, that he will formally handover the petition to me and other Members of the current Petitions Committee on Monday 4 April at 12:45pm on the steps of the Senedd.  You and other Members of the Enterprise and Business Committee are welcome to join us, as are other Assembly Members.

Yours ever,

William.

**William Powell AM**

**Chair**

**Petitions Committee**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Y Pwyllgor Deisebau
Petitions Committee

Edwina Hart CStj AM
Minister for Economy, Science and Transport
Welsh Government
Tŷ Hywel
Cardiff Bay
CF99 1NA

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff
CF99 1NA

23 February 2016

**P-04- 688 TATA Steel Port Talbot Power Plant**

Dear Minister

The Petitions Committee has received the following petition from Peter Bamsey, which is collecting signatures:

*We the undersigned call upon the Welsh Government to use all levers at its disposal, including financial levers, to support the completion of a new power plant planned for Port Talbot steels works. The construction of this plant will create jobs and when it is operational it will reduce emissions, reduce Tata's running costs and help to safeguard vital jobs in the area.*

In advance of our first consideration of this petition the Committee would like to seek your views on the issues raised.

Please forward your response to the Clerking Team at Petition@Wales.gov.uk.

Yours sincerely

William Powell

**William Powell AC / AM**
Cadeirydd / Chair

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 029 2089 8421
E-bost / Email: Petition@Cymru.gov.uk /Petition@wales.gov.uk

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / We welcome correspondence in both English and Welsh

**Edwina Hart MBE CStJ AC / AM**
**Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth**
**Minister for Economy, Science and Transport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-04-688
Ein cyf/Our ref EH/00848/16

William Powell AM
Chair - Petitions Committee

committeebusiness@Wales.gsi.gov.uk

26 February 2016

Dear William,

Thank you for your letter of 23 February regarding a petition you have received on Welsh Government support for completing a new power plant for the Tata Steel Port Talbot Power Plant.

The Welsh Government works very closely with Tata Steel and it is no secret that the company, like the rest of the industry, is facing extremely challenging operating conditions but the Welsh Government stands ready to do whatever it can to support our steel industry.

Solutions to the current crisis and the longer term plan for a sustainable steel sector in Wales must be founded on partnership working between the industry and Government at all levels.

The steel sector is considered to be a restricted sector and therefore cannot benefit from receiving all types of state aid including rescue and restructuring aid for companies in difficulty or regional aid for capital investment projects in assisted areas. However, the steel sector is eligible to receive other types of

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0300 0603300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0300 0604400
Correspondence.edwina.Hart@Wales.gsi.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

state aid such as support for environmental protection and research and development measures.

Edwina Hart